ymateb gweithgar

troi problemau'n atebion

Rhif 5 - Cywain y gwersi – Cefnogi tenantiaid drwy Recriwtio a Hyfforddiant wedi'u Targedu (RHT)

i2i - inform to involve

i2i - hysbysu i ymrwymo

ymateb gweithgar

troi problemau'n atebion

Croeso i ***ymateb gweithgar***, sef cyfres o bapurau gwybodaeth gan **i2i** – hysbysu i ymrwymo.

ymateb gweithgar

Rhif 5 - Cywain y gwersi – Cefnogi tenantiaid drwy Recriwtio a Hyfforddiant wedi'u Targedu (RHT)

Cyflwyniad a chyd-destun

Yn yr Ymateb Gweithgar hwn, ystyrir y gwaith y mae llawer o landlordiaid cymdeithasol **eisoes yn ei wneud i gefnogi eu tenantiaid i elwa ar gyfleoedd recriwtio a hyfforddiant wedi'u targedu (RHT).** Bydd hefyd yn cynnwys amrywiaeth o enghreifftiau arfer da y gall darparwyr tai cymdeithasol eu copïo neu eu haddasu i roi cyfleoedd RHT i'w tenantiaid a'u cymunedau.

Fodd bynnag, o ganlyniad i bolisïau lles a chyllid y llywodraeth glymblaid, mae nifer o newidiadau sylweddol ar y gorwel. Yn sgil y rhain, bydd yn bwysicach nag erioed gwneud y gorau o'r incwm rhent a gasglir, a hefyd bydd rôl darparwyr tai cymdeithasol mewn gwella gweithgarwch economaidd yn bwysicach byth gan arwain efallai at ostwng ôl-ddyledion rhent, cwtogi ar lefelau troseddu, lleihau'r mathau o dlodi a gwella cynhwysiant ariannol.

Ym marn i2i, dylai'r cymorth i denantiaid sydd am ymuno â'r farchnad lafur neu ddychwelyd iddi fod ymhlith y dewisiadau cymorth y mae darparwyr tai cymdeithasol yn eu cynnig er mwyn ceisio lleihau effaith y diwygiad lles. Dylid ystyried hyn yn rhan o gyfres o becynnau cymorth sy'n cael eu rhoi ar waith i gefnogi'r tenantiaid yr effeithir arnynt.

Yn y gorffennol, ysgogwyd RHT gan raglenni datblygu a chynnal a chadw sydd eisoes wedi creu 1,183 o gyfleoedd am hyfforddiant a swyddi cynaliadwy. Yng ngoleuni'r newidiadau cyfredol a'r newidiadau a ragwelir i bolisïau tai a lles, daw'n fwy sylfaenol byth cefnogi tenantiaid a'u cyfeirio at gyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant a'u cefnogi i agosáu at y farchnad lafur.

Gan ragweld y bydd y ddarpariaeth "o fudd-dal i waith" yn newid drwy Raglen Waith newydd yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), mae angen gweld swyddogion tai a gwasanaethau cymdogaeth yn cyflenwi llawer mwy na'r gwasanaeth rheoli tai traddodiadol ac yn cefnogi tenantiaid i waith os ydym am iddynt barhau yn eu cartrefi. Erbyn hyn, mae angen i RHT fod yn rhywbeth generig ar draws y staff tai rheng flaen, boed o ran dangos y ffordd neu, yn syml, gofyn y cwestiynau cywir ar yr adeg gywir.

I'r un graddau, bydd yn holl bwysig ennyn diddordeb tenantiaid ifanc a'u cynnwys mewn RHT, er mwyn ceisio eu diogelu rhag y newidiadau polisi sydd i ddod.

Oherwydd newidiadau fel cyflwyno'r credyd cynhwysol, taliadau uniongyrchol posibl y budd-dal tai a phosibilrwydd cysylltu taliadau budd-dal tai â thanfeddiannaeth, mae llawer o ddarparwyr tai cymdeithasol wedi amlygu bod angen canolbwyntio ar gymorth swyddi a hyfforddiant i'r tenantiaid y gallai'r diwygiad lles effeithio arnynt.

1. Casglu gwybodaeth am denantiaid a llunio proffiliau

Casglu gwybodaeth am denantiaid a llunio proffiliau ohonynt

Oherwydd y newidiadau i'r system budd-daliadau, mae bellach yn amser allweddol i sicrhau y caiff tenantiaid eu cefnogi i elwa ar gyfleoedd recriwtio a hyfforddiant wedi'u targedu a gynigir gan y darparwyr tai, drwy ddefnyddio dull Pecyn Cymorth Gallu Gwneud.

Mae'n rhaid gwneud llawer mwy na deall demograffeg yn unig wrth lunio proffiliau tenantiaid - mae'n rhaid i'r ymarfer hwn ofyn cwestiynau am uchelgeisiau hyfforddiant a chyflogaeth tenantiaid, a holi sut maent am gael eu hysbysu am y cyfleoedd hyn.

Hefyd, mae angen i staff rheng flaen sy'n magu perthynas â thenantiaid gael perthynas hefyd ag asiantaethau hyfforddiant a chyflogaeth lleol er mwyn cyfeirio tenantiaid at yr asiantaethau hynny.

I'ch galluogi chi'r darparwyr i ddeall uchelgeisiau cyflogaeth a hyfforddiant tenantiaid, mae'n hanfodol bod arolygon tenantiaid ac ymarferion proffilio yn ceisio canfod y math hwn o wybodaeth. Mae angen cydlynu'r prosesau hyn yn well – mae casglu gwybodaeth am anghenion swyddi a hyfforddiant yn mynd law yn llaw â chasglu gwybodaeth am gynhwysiant ariannol.

I lawer o awdurdodau sydd wedi cadw stoc a chymdeithasau trosglwyddo stoc, mae'r brif raglen wella'n gyfle i landlordiaid fanteisio ar ddull ymgysylltu presennol er mwyn asesu anghenion a dymuniadau tenantiaid.

I gymdeithasau trosglwyddo stoc, mae ymweld â chartrefi tenantiaid sydd â chytundebau tenantiaeth newydd eto'n gyfle i gael gwybod rhagor am amgylchiadau'r tenantiaid. Gellir manteisio ar holiaduron cyn tenantiaeth, yr adegau pan fydd cleientiaid yn galw i roi gwybod am atgyweiriadau neu ymholiadau, ac ymweliadau cartref cyffredinol i gyd er mwyn gofyn y cwestiynau hanfodol sydd eu hangen er mwyn i ddarparwyr tai ddarparu gwasanaeth pwrpasol i'w cleientiaid. Fodd bynnag, mae angen defnyddio llawer iawn o adnoddau i ymgysylltu â thenantiaid yn y modd hwn ac mae materion Adnoddau Dynol / Deddf Diogelu Data yn codi wrth gadw gwybodaeth am denantiaid.

Arfer Da

Mae angen targedu RHT a phroffilio tenantiaid yn fwy penodol, a gellir gwneud hynny drwy fanteisio ar bethau fel:

- Holiaduron cyn tenantiaeth sy'n holi tenantiaid posibl am eu bywyd cartref, faint o blant sydd ganddynt etc yn ogystal â'u holi am swyddi a hyfforddiant, a holi a fyddai hyn o ddiddordeb iddynt
- Holiaduron gwaith cyn SATC. Bydd y cleientiaid yn gynulleidfa fwy brwd gan fod gwelliannau mawr yn digwydd i'w cartrefi, ac efallai byddant yn fwy parod i roi gwybodaeth bersonol. Mae Tai Ceredigion wedi defnyddio'r uchod yn llwyddiannus wrth lunio eu proffiliau.
- Mae Tai Calon wedi defnyddio cyfrifiadau tenantiaid i gael gwybod rhagor am eu tenantiaid, ac felly byddant yn gallu nodi cymorth a chyfleoedd gwaith posibl.

1. Casglu gwybodaeth am denantiaid a llunio proffiliau

Dyma ffyrdd eraill o roi gwybod i dentantiaid am y cyfleoedd RHT:

1. Dosbarthu taflenni i bob cartref lle mae gwelliannau am gael eu gwneud, er mwyn rhoi gwybod i'r tenantiaid fod cyfleoedd hyfforddiant a swyddi ar gael tra bydd gwaith yn cael ei wneud ar yr ystadau a sut gallant gymryd rhan. Ni fydd llawer o denantiaid yn gwybod bod recriwtio a hyfforddiant drwy eu landlord yn opsiwn.

2. Gwefan – hysbysebion ac arolygon cyflym ar y dudalen gartref
3. Cyfryngau cymdeithasol
4. Bod yn bresennol mewn diwrnodau cymunedol
5. Digwyddiadau gyrfaoedd
6. Cyfweliadau mewn dull gwib-fachu (*speed dating*)
7. Cysylltu'n uniongyrchol â grwpiau cymunedol fel Cymunedau yn Gyntaf er mwyn ymgysylltu a chyfathrebu gyda ffocws mwy lleol

RHAID gosod yr holl wybodaeth sy'n cael ei chasglu mewn cronfa ddata, sy'n gallu llunio proffiliau fesul ystâd o ran diweithdra, rhai sy'n cael budd-daliadau, anableddau, oedrannau dibynyddion aelwyd, er mwyn i ddarparwyr tai ddarparu gwasanaethau pwrpasol i ardaloedd targed. Mwyaf rydych chi'n ei wybod am y tenantiaid, mwyaf effeithiol y gall yr ymyriadau a'r cymorth fod, yn ogystal â'r potensial am waith partneriaeth cryfach.

Mae angen hefyd cael gwell systemau TG y gellir eu diweddaru'n gyflym, a dadansoddi'r wybodaeth er mwyn darparu'r gwasanaeth gorau posibl.

Ymgysylltu â Thenantiaid

Yn draddodiadol bu'n anodd ymgysylltu â thenantiaid a chasglu gwybodaeth am unigolion. Fodd bynnag, gyda'r gallu i fanteisio ar archwiliadau cyn tenantiaeth, arolygon SATC cyn gwneud y gwaith, ac ymweliadau rheolaidd, mae'r wybodaeth hon o fewn cyrraedd. Er mwyn cynnwys tenantiaid yn effeithiol mewn RHT, mae angen i ddarparwyr tai cymdeithasol ystyried y pethau canlynol i ryw raddau:

1. Canfod sut mae tenantiaid yn defnyddio eu landlord am wasanaethau ehangach yn hytrach na gwasanaethau rheoli, atgyweirio a chynnal a chadw tai yn unig
2. Defnyddio amryw ffyrdd o nodi anghenion a blaenoriaethau'r gymuned
3. Ehangu cwmpas cyfranogiad traddodiadol tenantiaid e.e. er mwyn i swyddogion gyfeirio'r tenantiaid at asiantaethau lleol arbennig, cyflenwi prosiectau cymunedol lleol ynghylch RHT
4. Mae'n hanfodol ymgysylltu drwy ysgolion, Tîm Troseddau Ieuenctid a phobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) er mwyn ennyn diddordeb pobl ifanc
5. Sicrhau bod yr ymagwedd yn drawsadrannol a bod yr adrannau rheoli tai, eiddo, cynhwysiant a chymorth yn cydweithio

Mae defnyddio cyfryngau cymdeithasol a DigiTV wedi ffynnu yn y flwyddyn ddiwethaf, gyda mwyafrif y tenantiaid yn gallu cael at yr wybodaeth hon naill ai gartref ar eu cyfrifiaduron eu hunain, ar eu ffonau symudol neu drwy'r teledu. Mae landlordiaid cymdeithasol yn defnyddio'r rhyngrwyd yn gynyddol, h.y. Facebook, Twitter, Arolygon gwefan yn ogystal â DigiTV, i ymgysylltu â chleientiaid, a bu hyn yn llwyddiannus iawn.

Mae perthynas ragweithiol â chynhwysiant ariannol yn allweddol hefyd i ddefnyddio'r canlyniadau gorau i denantiaid a darparwyr tai fel ei gilydd. Mae'n hanfodol ystyried materion cynhwysiant ariannol gyda'i gilydd, fel cyngor ar les, gwneud y gorau o incwm a chyngor ar ddyled, ac yna gallu cynnig cymorth i gyflogaeth, gyda recriwtio a dargedir. Yng Nghymdeithas Tai Bron Afon, er enghraifft, mae systemau sy'n cefnogi'r agenda hwn gyda gwasanaeth Mentor Arian mewnol. Mae hwn yn arfer da a dylid ei ddefnyddio'n ehangach.

Mae'n golygu mwy nag adeiladu yn unig...

Bu Pecynnau Gallu Gwneud i2i yn llwyddiant ysgubol yn cefnogi defnyddio cymalau cymdeithasol mewn contractau er mwyn creu cyfleoedd swyddi a hyfforddiant newydd. Mae'r math hwn o gyfle'n gweithio'n dda iawn gyda rhaglenni buddsoddi mawr fel SATC a gwaith cynnal a chadw sy'n cael ei wneud gan awdurdodau lleol, Cymdeithasau Trosglwyddo Stoc ar Raddfa Fawr, a Chymdeithasau Tai. Serch hynny, dylai sefydliadau fod yn edrych yn gyffredinol ar gyfleoedd amrywiol i wneud y mwyaf o gyfleoedd RHT drwy gontractau gwasanaeth, ymgynghorwyr a darparwyr benthyciadau. Trwy hyn, gallai sefydliadau gynnig cyfleoedd i denantiaid drwy brofiad o lanhau, rheoli cyfleusterau, telathrebu, TG a phrofiad ariannol yn ogystal â gwasanaethau gofalu, amgylcheddol a rheoli ystadau lle gallai tenantiaid gael profiad / hyfforddiant / cyfle am swydd / cyfle i wirfoddoli.

Gwaith partneriaeth

Mewn awdurdodau lleol, dylai fod llinell gyfathrebu glir rhwng yr adrannau perthnasol fel adrannau budd-dal tai, digartrefedd a rheoli tai (os cânt eu cyflenwi gan yr awdurdod lleol), a dylai hyn ddigwydd hefyd

rhwng darparwyr tai eraill yn sefydliadau hyfforddiant ac asiantaethau cyflogaeth yr ardal. Bydd hyn hefyd yn sicrhau bod y darparwr tai yn ymwybodol o'r gwahanol ffrydiau o gynlluniau "o fudd-dal i waith", y math o wasanaethau y gallant eu cynnig, ac a yw gwasanaeth yn addas i'w gymunedau neu beidio. Dylid cefnogi'r cydweithio hwn yn rheolaidd â chyfarfodydd rhanddeiliaid rhwng pob partner i roi gwybod y diweddaraf am ddatblygiadau neu systemau newydd a fydd yn cynorthwyo'r agenda hwn (gweler y Blychau Arfer Da canlynol am ragor o wybodaeth).

Os yw RHT yn y contract, dylai'r darparwr tai sicrhau bod y contractwr yn cynnal diwrnodau agored / digwyddiadau ar yr ystadau lle mae gwelliannau mawr yn cael eu gwneud. Gall y darparwr tai fod yn siŵr wedyn fod cysylltiad da rhwng y contractwr a'r asiantaethau hyfforddiant, er mwyn ymgysylltu'n lleol â thenantiaid, fesul ystâd, i gynnig cyfleoedd cyflogaeth neu hyfforddiant.

Mae rhai cymdeithasau tai cymunedol cydfuddiannol yn defnyddio Swyddogion Cyswllt Tenantiaid (neu *TLOs*) mewnol er mwyn llunio proffiliau tenantiaid drwy ymgysylltu â hwy yn ystod rhaglen fuddsoddi SATC. Fel y nodwyd yn flaenorol, mae gwelliannau tai'n rhoi cyfle go iawn i landlordiaid siarad â thenantiaid mewn modd cadarnhaol, ac efallai mai dyma sydd ei angen i ysgogi gwell perthynas. Gall Swyddogion Cyswllt Tenantiaid wneud llawer mwy na chynorthwyo i gyflenwi'r rhaglen wella, o ran helpu i gefnogi lles ac ansawdd bywyd ehangach y tenantiaid. Mae gwasanaeth TLO+ yn ymdrin ag amryw feysydd, fel nodi ffyrdd o gael y gorau o incwm drwy waith, budd-daliadau lles, lleihau tlodi tanwydd, cynyddu iechyd a lles, cyngor ar ddyled a chyngor ar gaethiwed, er enghraifft drwy gyfeirio pobl at asiantaethau a all eu helpu.

Cafodd y dull hwn ei arloesi gan Gartrefi RCT a'i addasu a'i fabwysiadu gan nifer o gymdeithasau eraill, ac ystyrir mai dyma'r ffordd ymlaen, i wneud proses SATC yn fwy effeithlon, ond hefyd drwy alluogi rhaglenni adfywio a chynnwys cymunedau i gefnogi lles cymunedau yn hytrach na chefnogi tenantiaethau yn unig.

Astudiaethau Achos

Menter gymdeithasol newydd yw PS Services, sy'n cynnig gwasanaethau glanhau a chynnal a chadw tir, ac mae'n adran o gwmni Gofal Enterprises Ltd – sef cymdeithas lles ac iechyd meddwl sy'n cefnogi pobl ddi-waith.

Nod PS Services yw hyrwyddo lles meddyliol, hyder a hunan-barch y rheini y mae'n eu cyflogi, gan fynd ati i'w recriwtio o'r cymunedau a wasanaetha. Mae'n cynnig amrywiaeth o gyfleoedd gan gynnwys chwe mis o brofiad gwaith â thâl, cyfleoedd gwaith gwirfoddol, cymorth a mentora un ac un, cymorth i gael at gyflogaeth barhaol, a chymorth i gael at hyfforddiant ac addysg. Targedir y prosiect hwn at ddenu'r tenantiaid pellaf i ffwrdd o'r farchnad swyddi yn ôl i waith, ac mae'n enghraifft o arfer gorau y mae'n werth i bob darparwr tai ei ystyried.

Mae Gofal Cymru wedi cael cyllid i gynnal prosiect o'r enw The Aspire Project drwy Gymdeithas Tai Newydd ym Mro Morgannwg. Er bod y prosiect ar gyfer tenantiaid y gymdeithas honno'n bennaf, mae wedi cytuno'n garedig i gwmni Gofal gynnig y prosiect i denantiaid cymdeithasau tai eraill. Nod y prosiect yw rhedeg rhaglen adnabyddus Steps sy'n helpu pobl i wireddu a bodloni eu huchelgeisiau, gosod nodau, gwella hyder, cymhelliant a hunan-barch. Hefyd, mae'r rhaglen hyfforddi wedi'i hachredu gan OCN (sef Agored Cymru bellach).

Un o nodau'r prosiect yw cefnogi pobl i wneud gwahaniaeth yn eu cymuned, wrth gefnogi a chynghori'r rheini sydd am gyflawni uchelgeisiau personol. Mae hyn wedi rhoi'r sgiliau a'r hyder sydd eu hangen ar gleientiaid i ddechrau ymchwilio i'r farchnad swyddi, a chael gwaith.

Mae Ymddiriedolaeth Tai Lerpwl hefyd yn cynnig lleoliadau gwaith i'r preswylwyr sy'n byw yn eu cymunedau. Gan weithio mewn partneriaeth â gwasanaeth JET yng Nghyngor Dinas Lerpwl, cynigir rhaglen pontio cyflogaeth â thâl am 13 wythnos i'r preswylwyr. Mae'r rhaglen yn cynnig cymwysterau a gydnabyddir gan ddiwydiant, fel tystysgrifau iechyd a diogelwch, a 10 wythnos o brofiad gwaith ymarferol. Mae'r meini prawf ar gyfer cynnwys pobl yn y cynllun yn sylfaenol iawn sef a) bod yn ddiwaith a b) bod wedi cofrestru gyda JET.

Mae Family Mosaic (darparwr tai i Lundain ac Essex) wedi mynd gam ymhellach ac wedi ymrwymo i neilltuo 20% o'i swyddi gwag a'u hysbysebu i denantiaid a defnyddwyr gwasanaeth yn unig. Mae hyn yn sicrhau bod cleientiaid, sy'n methu cael swydd yn rhywle arall efallai, yn cael cyfle da i gael cyflogaeth amser llawn, ac felly incwm pendant yn hytrach na dibynnu ar fudd-daliadau. Gyda'r newidiadau i'r system budd-daliadau, dyma gam cadarnhaol iawn i sicrhau bod llif arian rhent yn parhau. Mae'n golygu hefyd fod y staff, sy'n denantiaid eu hunain, eisoes yn deall y materion allweddol, yn gwybod beth sy'n bwysig i'r cleientiaid, ac yn deall mor bwysig yw sicrhau bod y sefydliad yn gwmni cryf a dichonadwy.

Arfer Da – y ffyrdd i ymgysylltu â thenantiaid

Mae angen ymgysylltu â thenantiaid mewn cyd-destun ehangach drwy bethau fel

- cartrefi arddangos,
- prosiectau menter gymdeithasol,
- prosiectau cymunedol,
- diwrnodau difyr a gweithgareddau i ieuenctid fel gwersylloedd gweithgaredd
- ymgysylltu ag ysgolion a'r Tîm Troseddau Ieuenctid

Mae perthynas ragweithiol â chynhwysiant ariannol hefyd yn allweddol i ddefnyddio'r canlyniadau gorau i denantiaid a darparwyr tai fel ei gilydd. Mae'n hanfodol ystyried y materion cynhwysiant ariannol sy'n peri trafferth i denant gyda'i gilydd; wedyn gellir cynnig cymorth i gyflogaeth, gyda recriwtio a dargedir a fydd yn ei helpu i gael y gorau o'i incwm.

Mae olrhain cynnydd unrhyw gyfleoedd sy'n cael eu creu yn allweddol i lwyddiant. Bydd hyn yn sicrhau bod contractwyr yn cyflenwi'r hyn y disgwylir iddynt ei gyflenwi, a bod cymeradwyaeth gorfforaethol i gynhwysiant cymdeithasol. Yn y gorffennol, ystyrid bod hyn yn rhywbeth ychwanegol, ond yn yr adeg economaidd hon mae angen iddo fod ym mlaen yr agenda i sicrhau na fydd newidiadau i fudd-daliadau tai yn effeithio ar incwm y darparwr tai.

Mae angen hefyd ymgysylltu â'r rheini na ymgysylltid â hwy'n draddodiadol. Mae Cartrefi Dinas Casnewydd wedi cynnal nifer o brosiectau llwyddiannus iawn sydd wedi dod â phobl ifanc ynghyd drwy ddigwyddiadau fel prosiectau Pêl-droed, *Hoodies to Goodies*, a *City Streets*. Digwyddiadau i'r gymuned oedd y rhain i gyd, yn hytrach na digwyddiadau i denantiaid yn unig, ac felly roeddent yn helpu i gynnwys yr ardal ehangach yng ngwaith adfywio'r gymdeithas. Sefydlwyd fforwm ieuenctid mewn partneriaeth ag elusen leol (*Urban Circle*); bu hwn yn fodd i Gartrefi Dinas Casnewydd ddechrau trafod â chenedlaethau ieuengach, gan leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol ar ystadau, a chyfeirio tenantiaid at RHT a chyfleoedd eraill i wneud y gorau o incwm.

Rôl Rheolwyr Tai

Mae'r newidiadau polisi a fydd yn effeithio ar denantiaethau tai cymdeithasol wedi codi rhai cwestiynau am y ffordd yr ydym yn addasu gwasanaethau rheoli tai i gefnogi tenantiaid yn well i gynnal eu tenantiaethau. Mae'r newidiadau sy'n digwydd yn amlochrog, sy'n golygu bod angen mwy nag ateb tai traddodiadol yn unig i fynd i'r afael â rhai o'r pryderon hyn.

Yn yr hinsawdd sydd ohoni, gall y cymorth i gynnal tenantiaeth gynnwys cyngor ar ddyled, cymorth i gael gwaith a hyfforddiant, cyngor ar les a darparu gwasanaethau iechyd a lles sy'n peri inni ofyn sut ydyn ni'n newid gwasanaethau rheoli tai er mwyn iddynt ganolbwyntio'n fwy ar y gymuned a galluogi mwy o bobl mewn cymunedau a chymdogaethau lleol?

Mae angen amlygu y bydd angen adfywio gwaith rheoli tai, yn ôl ei ystyr draddodiadol, er mwyn inni geisio lliniaru effaith bosibl diwygio lles. At ddiben y papur gwybodaeth hwn, rydym yn canolbwyntio ar sut gall RHT chwarae ei ran.

Drwy gydol y broses o ddyrannu a rheoli tenantiaeth, gallai fod cyfle i swyddogion tai gyfeirio tenantiaid at gyfleoedd RHT drwy:

- restr aros / dyraniadau
- gwaith cyn tenantiaeth os yw Swyddogion Tai'n gweithio ar ddyraniadau. Cânt y cyfle i gyfarfod a siarad â thenantiaid posibl yn ystod cyfweliadau ac archwiliadau, a gallant ddefnyddio'r rhain i gyfeirio pobl at gyfleoedd RHT os yw hynny'n apelio atynt

- ymweliadau tenantiaeth – eto, ar yr adegau hyn y bydd tenantiaid yn teimlo'n fwyaf cyffyrddus, a hwythau wedi bod yn eu cartrefi newydd ers ychydig wythnosau, ac efallai bydd eisiau cymorth arnynt gyda nifer o bethau, gan gynnwys cymorth i gael gwaith
- defnyddio'r adran cefnogi tenantiaeth i gynnig cymorth ehangach – drwy gysylltu â'r adran cefnogi tenantiaeth yn gynnar yn nhenantiaeth rhywun, gellir gwneud gwaith sgiliau sylfaenol a hyder i baratoi pobl at waith, ac yna gallant ddechrau edrych am gyfleoedd drwy'r sefydliad.
- mae gan swyddogion rheoli tai ystod ehangach o bartneriaid sy'n gweithio gyda nhw i gefnogi eu tenantiaid i gynnal tenantiaethau. Gellir defnyddio'r partneriaethau hyn yn ehangach i fagu hyder a gallu'r bobl bellaf i ffwrdd o'r farchnad lafur.

Mae Bron Afon yn newid ei ffocws rheoli tai drwy ddatblygu dull o gyflenwi gwasanaethau fesul dalgylch, gan alluogi swyddog tai cymunedol i alw ar wasanaethau eraill pan fydd angen, gan ddibynnu ar y blaenoriaethau a'r anghenion yn y gymuned honno. I ddechrau, aeth timau tai cymunedol ati i lunio proffil cymunedol er mwyn mynd i'r afael â phroblemau yn ogystal â chynnig atebion i gymuned ddaearyddol. Nid yw hyn yn ychwanegu rhagor o gyfrifoldebau at rôl y swyddog tai ond, yn fwy na hynny, mae'n newid ein ffocws ac yn darparu dulliau gweithio newydd i ymdrin â'r heriau newydd a wynebwn.

Mae landlordiaid cymdeithasol wedi mynegi pryder oherwydd gwrthdaro buddiannau wrth orfodi tenantiaeth, yn arbennig o ran ôl-ddyledion rhent a chefnogi tenantiaid yn ôl i'r gwaith. Mae Cartrefi Dinas Casnewydd yn dechrau ag ymagwedd ysgafn i ganfod pam mae tenant yn cael anawsterau a sut gall y landlord helpu, fel arfer drwy wasanaethau cefnogi tenantiaeth, cynghori ar les ac eirioli. Ar yr adegau hyn

y gall gwaith partneriaeth a chyfathrebu y tu mewn i'r sefydliad gael effaith go iawn ac mae'n dangos sut mae modd cyflawni gwell canlyniadau i denantiaid drwy weithio fesul dalgylch. .

Mae angen i swyddogion rheoli tai ddefnyddio'r rhwydweithiau cefnogi sydd ganddynt gyda thimau cefnogi tenantiaeth, timau rhent, timau ymddygiad gwrthgymdeithasol, adrannau budd-dal tai, ac asiantaethau partner eraill a allai fod yn gweithio gyda thenantiaid ac asiantaethau "o fudd-dal i waith" i sicrhau nad ydynt yn cymryd mwy o gegaid nag y gallant ei lyncu. Eto, mae gwaith partneriaeth yn allweddol er mwyn llwyddo, yn ogystal â rhannu gwybodaeth rhwng partïon perthnasol, i adnabod ymyriadau cynnar felly.

5. Y proffesiwn, Rhoi'r achos & Sut wnawn ni'r achos?

Y proffesiwn

Mae yna rôl i CIH ddatblygu cyfleoedd hyfforddiant a datblygiad proffesiynol i egluro rôl ehangach rheolwyr tai. Mae angen i landlordiaid sylweddoli bod cylch gwaith Rheolwyr Tai yn ehangu ac yn newid ac mae angen y gall y Corff Proffesiynol eu cefnogi drwy'r broses hon drwy ddatblygu cyfleoedd hyfforddiant tebyg ar gyfer gwasanaethau perthnasol fel buddsoddiad cymunedol, adfywio, cynhwysiant ariannol a chefnogi tenantiaeth.

Mae rôl gweithwyr AD proffesiynol yn allweddol i lwyddiant RHT gan eu bod yn gyfrifol am bolisïau a gweithdrefnau recriwtio, ac nid yw'r rhain yn adlewyrchu'n aml fod rôl rheolwyr tai yn newid. Mae rôl yma i CIH ymgysylltu ag AD hefyd ar ddatblygu llwybr i denantiaid elwa ar gyfleoedd RHT.

Yn gysylltiedig â hyn, cydnabyddir yn helaeth y dylai sefydliadau fod yn gwthio ffiniau polisïau recriwtio ac yn arwain y gwaith o newid ffocws disgrifiadau swydd a manylebau person rheolwyr tai er mwyn ystyried anghenion cymunedol a blaenoriaethau sy'n newid. Mae angen i hyn gynnwys ymddygiadau a gwerthoedd i adlewyrchu unrhyw gyfrifoldebau corfforaethol cymdeithasol ehangach sy'n cael sylw.

Rhoi'r achos

Mae hanfodaeth cynhwysiant cymdeithasol a recriwtio a hyfforddiant wedi'u targedu ar agenda cyffredinol y sefydliad yn holl bwysig. Mae'n rhaid ystyried bod y rhain yn flaenoriaeth yn hytrach nag ychwanegyn, yn enwedig yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni lle gall newidiadau i fudd-daliadau lles effeithio ar incwm rhent.

Yng ngoleuni'r ffaith fod llawer o asiantaethau cefnogi'n colli cyllid neu'n cael eu torri'n gyfan gwbl, mae angen sicrhau bod byrddau rheoli, Prif Weithredwyr a Chyfarwyddwyr yn deall yn well i ba raddau mae angen ymrwymo os yw darparwyr tai cymdeithasol am gyflenwi cyfleoedd RHT cynaliadwy i denantiaid a chymunedau lleol. Rydym yn cydnabod bod landlordiaid cymdeithasol yn fwy na darparwyr tai fforddiadwy yn unig erbyn hyn, ond hefyd daw'n fwyfwy pwysig iddynt gyflenwi cymorth a hyfforddiant i denantiaid yn rhan o'u hamcanion corfforaethol dros y blynyddoedd nesaf. Mae hefyd yn bwysig mesur yr enillion cymdeithasol wrth fuddsoddi mewn creu cyfleoedd RHT i denantiaid, yn arbennig sut gall ymgysylltu â'r agenda hwn negyddu effeithiau affwysol gostyngiad yr incwm rhent efallai.

Sut wnawn ni'r achos?

Gwyddom y bydd yn rhaid i'r sector tai wneud ymdrech mawr i ddod o hyd i atebion sy'n gweithio i'r toriadau lles sy'n nesáu. Gall RHT fod yn rhan o'r gyfres o ddewisiadau sy'n addas, ond sut ydyn ni am ddarbwyllo'r sector i ymrwymo?

Nodwyd nifer o weithgareddau:

- Defnyddio canlyniadau RHT caled i arddangos yr arbedion a'r gwerth ariannol a gyflawnir drwy systemau fel arf Mesur Cymuned Gwerth Cymru
- i2i a sefydliadau traws-sector eraill yn hybu ymwybyddiaeth am yr ymagwedd hon ymhlith Byrddau ac uwch swyddogion y Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i arddangos manteision a phwysigrwydd yr agenda hwn
- CIH yn defnyddio ei rôl datblygiad proffesiynol i gefnogi rôl ehangach rheoli tai i fodloni gofynion y maes tai sy'n newid
- CIH a sefydliadau eraill i gefnogi'r swyddogaeth AD i archwilio cylch gwaith ehangach rolau rheolwyr tai drwy brosesau recriwtio a gwerthuso swyddi, yn ogystal â defnyddio eu harbenigedd i gefnogi tenantiaid drwy gynnal dosbarthiadau meistr recriwtio ac uwchsgilio pan fydd hynny'n briodol
- Darparwyr tai yn mynd ati'n drefnus i fapio asiantaethau cefnogi lleol
- Darparwyr tai yn nodi cyfleoedd ehangach drwy eu gweithgareddau caffael cyffredinol er mwyn creu cyfleoedd swyddi a hyfforddiant

Ein gofyn.....

Bydd i2i:

- yn datblygu cynllun peilot gyda chymdeithas dai i roi cyfleoedd RHT i denantiaid
- yn nodi dewisiadau cyllid APADGOS a chyllid ychwanegol sydd ar gael ar hyn o bryd ac yn y dyfodol
- yn cynorthwyo cymdeithasau i greu cronfeydd data o'r holl asiantaethau, gan gynnwys ariannu adnoddau i'w cyflenwi drwy'r asiantaethau hyn y gall awdurdodau lleol a chymdeithasau tai droi atynt wrth sefydlu prosiect a sicrhau ei fod yn gynaliadwy
- yn hyrwyddo Caffael Cymdeithasol drwy gymdeithasau er mwyn cryfhau enillion eu pŵer prynu

Gofynnwn i CIH Cymru:

- Gefnogi'r sector i ddatblygu rôl swyddogion rheoli tai er mwyn bodloni cyfrifoldebau corfforaethol cymdeithasol y sefydliad
- Cefnogi'r sector i ddatblygu sgiliau recriwtio gweithwyr AD proffesiynol a deall anghenion recriwtio a hyfforddi a chymorth i denantiaid

Gofynnwn i ddarparwyr tai cymdeithasol:

- Recriwtio'n seiliedig ar agwedd yn ogystal â set sgiliau
- Defnyddio Rhestri Aros Cyffredin yn strategol i nodi gofynion ac uchelgeisiau ymgeiswyr a thenantiaid y dyfodol o ran swyddi a hyfforddiant
- Ystyried darpariaeth gofal plant i'r rheini sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni gwaith
- Sicrhau bod y sector yn ymrwymo i ymagwedd sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau
- Cydlynu strategaethau cynhwysiant digidol, cynhwysiant ariannol a RHT er mwyn cyflenwi'r un ymagwedd i bawb y mae angen cymorth arno.

Diolch i'r sefydliadau canlynol am eich cyfraniad ar y diwrnod:

Tai Calon

Bron Afon

Gofal Cymru

Hafod

V2C

Integrate

Tai Ceredigion

Cartrefi Dinas Casnewydd

Rhaglen Blaenau'r Cymoedd

Paru Swyddi